YOUTH OFFENDING TEAM Inspection

Hysbysiad i'r Wasg

Ffôn: Ymholiadau gan y cyfryngau: 0203 334 3527
Arolygiaeth Prawf EM • Ail Lawr • Ashley House • 2 Monck Street • Llundain • SW1P 2BQ
Ffôn: 020 7035 2202 • Ffacs: 020 7035 2237
E-bost: HMIP.enquiries@hmiprobation.gsi.gov.uk • http://inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation/

Arolygiad annibynnol o waith prawf a throseddau ieuenctid

EMBARGO TAN 00:01 25/03/2009
CYHOEDDI ADRODDIAD AROLYGU
TÎM TROSEDDWYR IFANC SIR FYNWY A THORFAEN

Heddiw, cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf o bedwerydd cam yr arolygiadau o Dimau Troseddwyr Ifanc (TTI) yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliodd tîm arolygu amlasiantaethol yr arolygiad o Dîm Troseddwyr Ifanc Sir Fynwy a Thorfaen.

Meddai Andrew Bridges, Prif Arolygydd Prawf EM:

“Mae’r TTI yn darparu gwasanaethau i ddau awdurdod lleol Sir Fynwy a Bwrdeistref Sirol Torfaen ac mae ei swyddfeydd yn Isadran Gwasanaethau Plant Arolygiaeth Gwasanaethau Tai a Chymdeithasol Cyngor Sir Fynwy. Rydym yn falch o ddod ar draws TTI sy’n dechrau cyfrannu’n effeithiol at y fframwaith strategol ehangach ar gyfer gwasanaethau plant yn y ddau awdurdod.

Mae’r Tîm yn perfformio’n dda mewn llawer o feysydd yn ei arfer drwy ychydig o waith graenus a wneir gan staff ymroddedig sy’n uchel eu cymhelliant ac yn cael eu rheoli’n dda. Mae amrywiaeth o ymyriadau ar gael i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl troseddu a’r rheini sydd wedi troseddu. Darperir gwasanaethau o ansawdd hefyd i rieni/gofalwyr a dioddefwyr troseddau. Mae angen sylw pellach ar y broses ar gyfer asesu a rheoli Risg o Niwed i eraill a bregusrwydd, yn ogystal â darparu gwasanaeth dwyieithog.

Er bod y Tîm wedi cael cyfnod o newidiadau dros dro, canfuom ei fod wedi cymryd rhai camau cadarnhaol ymlaen. Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o argymhellion a fydd, yn ein barn ni, yn cynorthwyo’r tîm i atgyfnerthu ei waith presennol a pharhau i wneud cynnydd.”

Prif ganfyddiadau’r adroddiad yw:

Gwaith yn y llysoedd

Roedd gwasanaethau cefnogi a goruchwylio mechnïaeth effeithiol wedi cyfrannu at leihau’r angen i’r awdurdod lleol neu’r ystâd ddiogel gadw pobl yn y ddalfa.

Nid oedd asesiad o fregusrwydd plant a phobl ifanc yn cael ei gynnwys bob amser mewn adroddiadau cyn dedfrydu ac nid oedd un o bob tri yn gwahaniaethu rhwng Risg o Niwed i eraill a thebygolrwydd aildroseddu.

Roedd adroddiadau llys am Droseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth o ansawdd ardderchog.

Roedd perthnasoedd effeithiol yn bodoli rhwng y TTI a’i lys lleol, gyda chyfleoedd i staff y TTI gyfrannu at hyfforddi ynadon llys ieuenctid newydd.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

Roedd nifer o asiantaethau partner yn gallu cyfeirio pobl at y Prosiect Ymyrryd er mwyn Atal, er mwyn i banel amlasiantaeth wirio atgyfeiriadau’n gywir.

Roedd amrywiaeth o wasanaethau ar gael i blant a phobl ifanc a oedd yn mynychu'r Prosiect Ymyrryd er mwyn Atal i helpu i'w hatal rhag troseddu.

Cwblhawyd asesiadau am yr holl achosion atal a arolygwyd gennym ac ystyriwyd bod y mwyafrif o ansawdd digonol. Fodd bynnag, dim ond mewn 60% o achosion yr aseswyd anghenion amrywiaeth.

Roedd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl ac emosiynol o ansawdd da ar gael i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl troseddu ac i'r rheini a oedd wedi troseddu.

Roedd angen camau mwy cadarn i ddiogelu plant a phobl ifanc mewn perygl troseddu a'r rheini a oedd wedi troseddu. Canfuom fod gwasanaethau plant wedi cau achosion yn amhriodol ar ôl eu cyfeirio at y Prosiect Atal ac Ymyrryd ac nad oedd cynlluniau gweithredu bregusrwydd wedi cael eu paratoi ym mwyafrif yr achosion yr oedd angen y fath gynllun arnynt.

Roedd diffyg llety annibynnol addas i blant a phobl ifanc ddigartref.

Roedd y TTI wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol a chynhyrchiol ag ysgolion yn y ddau awdurdod, yn benodol ynghylch plant a phobl ifanc agored i niwed a'r rheini a oedd yn Derbyn Gofal.

Nid oedd yr holl blant a phobl ifanc o oed ysgol yn cael 25 awr o addysg yr wythnos. Roedd trefniadau i ddarparu nifer ofynnol yr oriau yn achosi mwy o broblemau yn Sir Fynwy na Thorfaen.

Nid oedd darpariaeth gwasanaeth dwyieithog wedi'i datblygu digon. Roedd staff gweinyddol yn gallu cyfarch galwyr yn Gymraeg, roedd un gweithiwr cymdeithasol yn siarad Cymraeg ac roedd y TTI yn gallu cyfeirio ceisiadau Cymraeg at Swyddog Iaith Gymraeg Cyngor Sir Fynwy. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ymyriadau penodol ar gael yn Gymraeg.

Er bod mwyafrif yr achosion yn cael eu sgrinio'n gywir a bod asesiad llawn yn cael ei gwblhau am y rhan fwyaf o'r achosion perthnasol, roedd asesu a rheoli Risg o Niwed i eraill a bregusrwydd yn feysydd arfer datblygol i'r Tîm Troseddwyr Ifanc. Fodd bynnag, roedd y broses a fabwysiadwyd gan y Tîm yn aneglur ac yn gwanhau sgiliau rhai aelodau o staff. Nid oedd gofyn iddynt ddefnyddio'r arfau asesu a rheoli a ddarparwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac roedd hyn yn ychwanegu at ddryswch wrth bennu a oedd y plant a'r bobl ifanc yn cyflwyno Risg o Niwed i eraill neu a oeddent hwy hefyd yn agored i niwed.

Roedd cynllunio ymyriadau yn gryfder. Ym mwyafrif helaeth yr achosion, cwblhawyd cynlluniau gwreiddiol mewn pryd ac roeddent yn cynnwys ymyriadau i fynd i'r afael â gwneud iawn i'r dioddefwr ac ymyriadau i atal aildroseddu.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo

Mynychodd staff y TTI bob cyfarfod cynllunio ac adolygu a sicrhau bod Asset yn llywio'r cynlluniau hyfforddi.

Roedd y Tîm yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i deuluoedd am y sefydliad diogel y rhoddwyd eu plant ynddo ac yn annog a chynorthwyo rhieni/gofalwyr i ymweld.

Roedd yr holl blant a phobl ifanc yn cael cyfnod cynefino amserol a chynhwysfawr ar ôl eu rhyddhau i'r gymuned.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

Roedd strwythurau effeithiol ar gyfer dyrannu, rheoli a chyflawni gwaith gyda dioddefwyr.

Roedd plant a phobl ifanc yn gallu gwneud iawn yn uniongyrchol i ddioddefwyr ac i'r gymuned leol drwy amrywiaeth o brosiectau.

Gwahoddwyd y rhan fwyaf o ddioddefwyr i gyfranogi mewn proses cyfiawnder adferol ac roedd dioddefwyr yn cymryd rhan yn aml yng nghyfarfodydd panel y troseddwyr ifanc.

Rheoli ac arwain

Roedd y TTI bellach yn fwy integredig mewn nifer o fforymau partneriaeth ac roedd tystiolaeth o ychydig o gydweithio da iawn â phlant a phobl ifanc.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o arweiniad strategol clir ynghylch mynd i'r afael ag amrywiaeth a materion iaith Gymraeg.

Roedd yr holl staff a gwirfoddolwyr wedi cael gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu goruchwylio a'u gwerthuso'n rheolaidd.

NODIADAU I OLYGYDDION

1. Cynhaliwyd yr arolygiad o Dîm Troseddwyr Ifanc Sir Fynwy a Thorfaen ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2008.
2. Roedd gan Sir Fynwy a Thorfaen boblogaeth gyfan o 175,834, a fesurwyd yng Nghyfrifiad 2001. O'r boblogaeth hon, roedd 11.4% (Torfaen) a 10.7% (Sir Fynwy) rhwng 0 a 17 oed adeg y cyfrifiad. Roedd y ffigur hwn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru/Lloegr, sef 10.4%.
3. Mae naw Arolygiaeth yn cynnal yr arolygiadau o Dimau/Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc, sef: y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
4. Dechreuodd y rhaglen arolygu Timau Troseddwyr Ifanc ym mis Mehefin 2003. Roedd pob un o'r 157 o Dimau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru a Lloegr yn cael eu harolygu dros gylch pum mlynedd.
5. Cynhelir yr arolygiad yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i arolygu cymesur a chydgysylltiedig mewn llywodraeth leol, wedi'i lywio gan ganlyniadau'r Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae rhaglen wedi'i datblygu felly sydd:
   - yn gymesur i risg ac sy'n arolygu dim ond y meysydd gwaith hynny lle mae tîm yn perfformio'n dda er mwyn lledaenu arfer da
   - yn ategu rhaglenni arolygu eraill, ac sy'n cael ei chydlynu â hwy, yn bennaf y Cydadolygiadau Ardal o wasanaethau plant (dan arweiniad Ofsted) a'r Asesiad Corfforaethol (dan arweiniad y Comisiwn Archwilio)
   - yn ystyried datblygiad diweddar TTIau yn sefydliadau.
6. Datblygwyd safonau a meini prawf cynhwysfawr i ymdrin â phedwerydd cam yr arolygiad, gan ganolbwyntio ar y canlynol:
   - gwaith yn y llysoedd
   - plant a phobl ifanc yn y gymuned (y rheini sydd mewn perygl troseddu a'r rheini sydd wedi troseddu)
   - plant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo
   - dioddefwyr a chyfiawnder adferol
   - rheolaeth ar y TTI a threfniadau partneriaeth.